

Adroddiad Ymgynghori

Grangetown: Croesfan Sebra Heol Penarth

Rhif Project: CO18183

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 11 Ionawr 2019 a'r 1 Chwefror 2019. Derbyniwyd 3 ymateb ac roedd 2 o blaid y cynllun. Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi'u crynhoi isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ystyried yr adroddiad isod, cynigir bwrw ymlaen â'r cynllun, yn amodol ar y cyllid a fydd ar gael.

Derbyniwyd y sylwadau canlynol **yn erbyn** y cynigion.

Mater 1 – Pryderon beicio

“Os mai diben y groesfan yw i hwyluso'r symud o Dinas Place i Blaenclydach Road yna mae lleoliad y groesfan fwy na thebyg mewn man da, fodd bynnag ceisiwch gyfnewid y groesfan i feiciau gyda'r groesfan i gerddwyr fel mai'r groesfan i feicwyr sydd agosaf at gyffordd Blaenclydach Road. Byddai hyn yn atal y datrysiad presennol a gynigir sy'n golygu y bydd gofyn i bobl sy'n defnyddio beiciau groesi ar draws pobl yn cerdded, sydd yn wrthdaro wedi ei ddylunio y dylid ei osgoi.

Rwy'n rhagdybio na ddylech fod yn beicio ar y palmant yno felly os yw'r groesfan yn awgrymu y gall pobl feicio arno er mwyn dechrau/orffen croesi Heol Penarth, dylid dylunio'r groesfan i gyfarwyddo pobl ar feiciau i ffwrdd o'r palmant cyn gynted ag y bo modd, byddai cyfnewid trefn y groesfan fel a ddisgrifir uchod yn cyflawni hyn.”

Ymateb

Yn ogystal â darparu cyswllt i feicwyr rhwng Blaenclydach Street a Dinas Place, bydd y groesfan hefyd yn cynnig man diogel i groesi ar Heol Penarth i feicwyr o Blaenclydach Street ac o Dinas Place fel cyswllt at ac o Lwybr y Taf. Fodd bynnag, yn ystod y cam dylunio manwl gwneir arolygon pellach er mwyn cadarnhau pa safle yw'r un mwyaf priodol i'r cyfleuster beicio.

Bydd y droedffordd yn dod yn 'ddefnydd a rennir' yng nghyffiniau'r groesfan sebra gyfochrog, bydd hyn yn caniatáu i feicwyr ddefnyddio'r troedffyrdd. Caiff arwyddion rhybuddio a phalmantu botymog rhybuddiol eu cyflwyno er mwyn tanlinellu hyd a lled ardal y defnydd a rennir.

Mater 2 – Pryderon Llwyfan Arafu

“Lle bynnag y bydd byrddau arafu lled llawn yn cael eu cyflwyno rydym o hyd yn mynegi pryderon ynghylch eu proffil a’r cynnal a chadw arnynt. Ledled y ddinas ceir lluo o enghreifftiau lle mae’r proffiliau yn amrywio cymaint fel eu bod yn cyfaddawdu ar ddiogelwch ein cerbydau ac ansawdd y profiad teithio.

Mae gyrru parhaus dros y cyfyngiadau hyn yn prysuro dirywiad cydrannau ar y bws sy’n golygu cyfradd adnewyddu amlach a chost uwch i’n busnes. Maent hefyd yn effeithio’n andwyol ar ansawdd y teithio, a gall hyn gael effaith negyddol ar nifer y siwrneiau a wneir gan gwsmeriaid.”

Ymateb

Cydnabyddir bod byrddau arafu ag amrywiol oleddfau ar hyd a lled y Ddinas a cheisiwn ddarparu byrddau â goledf gyson ar bob bwrdd arafu newydd. Er mwyn cynnig taith esmwyth i deithwyr bysiau, caiff y byrddau hyn eu cynllunio â goledf o 1 mewn 16, gyda lleiafswm pellter o chwe metr rhwng dechrau a diwedd y byrddau, na ddylai felly beri difrod i gerbydau os eir drostynt ar gyflymder addas. Rydym hefyd yn defnyddio deunydd wyneb ffordd gwell ar y bwrdd ei hun ac ar yr ardal yn union o’i flaen ac ar ei ôl er mwyn lleihau unrhyw newid i’r proffil.

Yn anffodus, un o’r unig ddulliau sydd gennym i arafu traffig yw trwy ddefnyddio byrddau arafu. Mae byrddau arafu yn addas ar gyfer y lleoliadau hyn er mwyn creu amgylchedd priffordd mwy diogel ger y groesfan i gerddwyr.

Mae’r canlynol yn ddetholiad o lythyrau a dderbyniwyd i **gefnogi**’r cynigion


“Byd hyn mor ddefnyddiol i fy nwy ferch sy’n peryglu eu hunain drwy groesi yma i ymweld â ffrindiau yng ngerddi Pentre. Yn ogystal a chwsmeriaid y siopau a’r tai bwyta.”

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

A Proud Capital
Prifddinas Falch



Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy.

A Proud Capital
Prifddinas Falch

